*These notes refer to the Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (c.1)*

# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 5 – Cymhwyso'R Ddeddf a Dcrht I Bersonau a Chyrff Penodol

### *Adran 36 - Cynlluniau contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth*

54. Mae adran 36 yn darparu bod cynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth ("CCAC") i'w drin at ddibenion treth trafodiadau tir fel pe bai'r cynllun yn gwmni, a hawliau'r cyfranogwyr yn gyfranddaliadau yn y cwmni, ac eithrio mewn perthynas â rhyddhad gr#p, rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael. Rhaid i CCAC gael ei gyfansoddi yn unol â deddfwriaeth gwasanaethau ariannol berthnasol y DU, neu o dan gyfraith gwladwriaeth AEE ac eithrio'r DU.

55. Rhoddir p#er i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach, drwy reoliadau (sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol), sy'n pennu bod cynllun o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau i'w drin fel pe na bai'n CCAC at ddibenion y Ddeddf hon a DCRhT.